Ariennir yn Rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Part Funded by
**Welsh Government**

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## Ysgoloriaethau Doethuriaeth Gweinyddu Busnes sy'n Seiliedig ar Werth

**Ynglŷn â'r Ddoethuriaeth Gweinyddu Busnes sy'n Seiliedig ar Werth**

Mae ysgoloriaethau ffioedd llawn ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio ar y Ddoethuriaeth Gweinyddu Busnes (DBA) a Addysgir yn Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe. Rhaglen Academi Dysgu Dwys Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r ysgoloriaethau. I fod yn gymwys i gyflwyno cais, rhaid bod ymgeiswyr wedi'u cyflogi ym maes gofal cymdeithasol, iechyd neu'r trydydd sector yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion am gymhwysedd isod. Sylwer mai rhaglen ran-amser yw hon.

Hoffai panel yr Ysgoloriaeth Ymchwil sy'n Seiliedig ar Werth dderbyn cynigion arloesol a chreadigol sy'n cyd-fynd â chyflawni canlyniadau [Cymru Iachach]

Gofynnir i fyfyrwyr drafod syniadau am gynigion ymchwil â Chyfarwyddwr y Rhaglen, Dr Simon Brooks, yn y lle cyntaf. Mae'n bosib y bydd Dr Brooks yn cyfeirio myfyrwyr at aelodau eraill o staff academaidd ag arbenigedd mwy addas lle bo'n briodol. Manylion Cyswllt: s.b.brooks@abertawe.ac.uk

**Proses Dyfarnu'r Ysgoloriaeth Doethuriaeth mewn Gweinyddu Busnes sy'n Seiliedig ar Werth**

1. Rhaid i fyfyrwyr fodloni'r gofynion mynediad ar gyfer y rhaglen DBA i gyflwyno cais am ysgoloriaeth. Gall myfyrwyr gyflwyno cais am Ysgoloriaeth cyn cyflwyno cais am le ar y rhaglen DBA.

2. Dylai myfyrwyr gwblhau Cais am Ysgoloriaeth Ymchwil Prifysgol Abertawe yng Nghyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol isod. Yn eu datganiad personol, dylent fynd i'r afael â'r pwyntiau isod. Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn **dydd Mercher 19 Gorffennaf 2023 fan bellaf**.

3. Gwnewch yn siŵr bod yr holl ddogfennau ategol, gan gynnwys y ffurflen cais am ysgoloriaeth hon, wedi'u hatodi i'ch cais am le ar y rhaglen.

4. Mae'r broses o gyflwyno cais am yr ysgoloriaeth yn un gystadleuol sy'n seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd a'i gyflogwr. Dylai myfyrwyr ddangos sut bydd eu cynnig ymchwil

    - yn helpu i gyflawni canlyniadau Cymru Iachach;
    - ychwanegu gwerth at eu sefydliad; a
    - gwella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, cleifion neu'r gymuned maent yn gweithio gyda hi.

5. Bydd y panel hefyd yn ystyried cyflwyniad yr ymgeiswyr yn y cyfweliadau, eu CV a'u cyflawniadau academaidd blaenorol.

6. Bydd ymgeiswyr am yr ysgoloriaeth VBDBA yn cael eu gwahodd i gyfweliad gyda phanel y VBDBA ym mis Gorffennaf/Awst 2023. Gall hyn fod wyneb yn wyneb neu ar-lein.

7. Bydd panel y VBDBA yn cynnwys Dr Simon Brooks, Cyfarwyddwr y Rhaglen DBA, yr Athro Hamish Laing, sef Arweinydd yr Academi Dysgu Annibynnol Gofal ac Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth ac academydd perthnasol, gan ddibynnu ar y maes pwnc y mae'r ymgeisydd yn ei gynnig.

8. Bydd panel yr Ysgoloriaeth VBDBA yn hysbysu ymgeiswyr am ganlyniad eu cais erbyn **31 Awst 2023**. Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael adborth gan y panel.

9. Dylai ymgeiswyr sydd am gael adborth ar ôl penderfyniad y panel gysylltu â chadeirydd y panel am ragor o adborth.

10. Hyd yn oed os yw ymgeiswyr yn aflwyddiannus yn eu cais am gyllid, gallant gyflwyno cais am le ar y rhaglen DBA

**Amodau a Thelerau Ysgoloriaethau Ymchwil VBDBA**

1. Mae Ysgoloriaethau DBA sy’n Seiliedig ar Werth yn gyfyngedig i fyfyrwyr ymchwil newydd sy'n astudio ar y rhaglen DBA ran-amser yn yr Ysgol Reolaeth, ym Mhrifysgol Abertawe;

2. Ar gyfer myfyrwyr o’r DU, mae Ysgoloriaethau VBDBA yn talu costau ffioedd dysgu llawn y DBA a bennwyd gan Brifysgol Abertawe

3. Bydd yr ysgoloriaeth yn talu'r ffioedd dysgu yn uniongyrchol ac ni fydd ymgeiswyr yn derbyn y rhain yn uniongyrchol;

4. **Ni fydd** yr Ysgoloriaeth VBDBA yn cynnwys cyflog;

5. Mae Ysgoloriaethau VBDBA ar gael i fyfyrwyr sy'n bodloni’r meini prawf canlynol yn unig:
    - yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu yn y GIG ar hyn o bryd, ym maes Gofal Iechyd, Gofal Cymdeithasol neu yn y Sector Gwirfoddol yng Nghymru;
    - yn meddu ar gadarnhad o gefnogaeth a lofnodwyd gan eu cyflogwr;
    - yn ddinesydd y DU neu’n meddu ar 'statws sefydlog' (mae hynny'n golygu nad oes cyfyngiadau o ran pa mor hir y caiff ymgeiswyr aros yn y DU);
    - yn byw yn y DU a'r Ynysoedd am dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs. NEU
    - yn ddinesydd yr UE (ac eithrio Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) ac yn byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) neu'r Swistir am y tair blynedd diwethaf.

6. Caiff Ysgoloriaethau Ymchwil eu dyfarnu am flwyddyn yn y lle cyntaf. Gellir eu hadnewyddu am gyfnod ychwanegol o hyd at dair blynedd i gynnwys y cyfnod ymgeisyddiaeth byrraf, yn amodol ar gynnydd boddhaol;

7. Bydd ysgoloriaethau sy’n cael eu cynnig yng ngwanwyn 2021 yn ddilys i ddechrau'r rhaglen ym Mlwyddyn Academaidd 2021-22; ni chaniateir gohirio'r dyfarniad tan sesiwn academaidd hwyrach;

8. I gymhwyso am y dyfarniad, rhaid i fyfyrwyr gofrestru erbyn 30 Medi 2023 fan hwyraf;

9. Ni chaniateir trosglwyddo Ysgoloriaethau Ymchwil;

10. Ni chaniateir i dderbynyddion ysgoloriaethau dynnu'n ôl o'r rhaglen, na throsglwyddo ohoni, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Academaidd Ymchwil Ôl-raddedig. Gall peidio ag ufuddhau i’r rheoliad hwn arwain at atebolrwydd ar ran y myfyriwr i ad-dalu ffioedd a dalwyd eisoes ar ei ran;

11. Yn ogystal ag unrhyw hysbysebu allanol neu mewn Coleg, rhaid hysbysebu Ysgoloriaethau VBDBA drwy dudalennau gwe canolog y Brifysgol ar gyfer ysgoloriaethau a bwrsariaethau.

**a. Cyflogaeth**

12. Disgwylir i dderbynyddion ysgoloriaethau ymgymryd â gweithgareddau ôl-raddedig yn y Brifysgol a'r Coleg a chymryd rhan ynddynt, gan gynnwys, er enghraifft, hyfforddiant ôl-raddedig, cystadlaethau poster, seminarau a chynadleddau ôl-raddedig. Hefyd, efallai y bydd gofyn iddynt gydweithio wrth hyrwyddo rhaglenni ymchwil Prifysgol Abertawe i fyfyrwyr newydd.

13. Os bydd derbynnydd ysgoloriaeth yn absennol am fwy nag 13 o wythnosau mewn blwyddyn academaidd, bydd gofyn i'r myfyrwyr ohirio ei astudiaethau

14. Wrth ddychwelyd i astudio, yn dilyn gohiriad oherwydd cyflwr meddygol, rhaid i'r myfyriwr gael ardystiad gan ei feddyg teulu ei fod yn iach i ailddechrau astudio;

15. Ni all cyfanswm cyfnodau gohirio fod yn hwy na 12 mis yn ystod oes y dyfarniad (ac eithrio fel y'i nodir yn 22 isod). Os bydd cyfanswm cyfnodau gohirio yn hwy na 12 mis, caiff yr ysgoloriaeth ei therfynu;

**a. Terfynu dyfarniad**

16. Gall Prifysgol Abertawe derfynu ysgoloriaeth dan yr amgylchiadau canlynol:
    a. Ceir diffyg cynnydd academaidd;
    b. Mae'r myfyriwr a'r Brifysgol yn colli cysylltiad;
    c. Mae'r myfyriwr wedi torri unrhyw un o'r amodau a'r telerau a nodwyd uchod.

Prifysgol
Abertawe

**Rhif Myfyriwr (at ddefnydd y swyddfa yn unig):**

## Cais am Ysgoloriaeth Doethuriaeth Gweinyddu Busnes sy’n Seiliedig ar Werth yng Nghyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

### 1. MANYLION PERSONOL

| Cyfenw/Enw Teuluol | Cyfenw/Enw Teuluol blaenorol (os yw'n berthnasol) | Enwau eraill (yn llawn) | Teitl |
|---|---|---|---|
| | | | |

Cyfeiriad Cartref Parhaol:

Cyfeiriad Gohebu:

O:

At sylw:

**At ddefnydd y Brifysgol yn unig**

| | |
|---|---|
| Côd post: | Côd post: |
| Rhif ffôn:<br>(gan gynnwys côd ardal) | Rhif ffôn:<br>(gan gynnwys côd ardal) |
| Rhif ffacs (gan gynnwys côd ardal) | Rhif ffacs (gan gynnwys côd ardal) |
| Cyfeiriad e-bost: | Cyfeiriad e-bost: |

| Cenedligrwydd | Gwlad Breswylio Barhaol | Dyddiad Geni (DD/MM/BB) | Rhyw | Iaith Gyntaf (ar wahân i Saesneg) |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Rhif eich pasbort
Ymgeiswyr nad ydynt o'r Undeb Ewropeaidd yn unig):

**Ymgeiswyr o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd:**

Ydych chi wedi preswylio (ar wahân am absenoldebau byr e.e. ar gyfer gwyliau) yn yr UE am y tair blynedd cyn dyddiad dechrau eich astudiaethau ôl-raddedig? (ticiwch flwch)

YDW ☐ NAC YDW ☐

Os na, rhowch ragor o fanylion:

**At ddefnydd y Brifysgol yn unig:**

## 2. EICH ADDYSG

Rhowch fanylion eich **gradd gyntaf (neu gymhwyster cyfwerth)**

Sefydliad neu gorff dyfarnu:

Enw Swyddogol y Cymhwyster: (e.e. BA, Diplom, etc.) Pynciau:

Canlyniad (os ydych yn ei wybod)
(e.e. dosbarth, GPA, etc.)

Dyddiad y Dyfarniad:

Enw a chyfeiriad post llawn y sefydliad lle gwnaethoch astudio ar gyfer eich gradd gyntaf:

Dyddiad mynychu: O: Mis: Blwyddyn:

Tan: Mis: Blwyddyn:

SYLWER: Os ydych yn derbyn y cynnig i ymgymryd ag astudiaethau ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe, bydd yn rhaid cysylltu â'r sefydliad dyfarnu'n uniongyrchol i gadarnhau manylion eich gradd.

## Graddau Uwch a/neu Gymwysterau Proffesiynol

Teitl(au) | Dyddiad(au) y Dyfarniad(au)

Enw'r sefydliad neu'r corff dyfarnu:

Os nad oes digon o le, gallwch atodi taflen ychwanegol i'ch ffurflen gais

## **Hyfedredd iaith Saesneg –** dim ond yn berthnasol os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf

Nodwch sgôr IELTS, TOEFL neu CPE. Rhaid atodi copïau o'r tystysgrifau perthnasol.

Enw'r Prawf:

Sgôr

Dyddiad y prawf diweddaraf:

Dyddiad y prawf sydd ar ddod:

Efallai bydd yn rhaid i chi ymgymryd ag astud iaethau pellach yn Saesneg cyn i chi ddechrau ar eich cwrs ôl -raddedig.

**At ddefnydd y Brifysgol yn unig:**

Defnyddiwch y lle hwn i nodi a gafodd eich cwrs israddedig ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg neu i ychwanegu rhagor o wybodaeth ynghylch eich hyfedredd yn yr iaith Saesneg.

## 3. GWYBODAETH GYFLOGAETH

Rhowch fanylion unrhyw gyflogaeth gyfredol/flaenorol (gan gynnwys dyddiadau) a allai gefnogi'ch cais. Yn ogystal â'r ffurflen gais wedi'i chwblhau, gallwch gynnwys curriculum vitae wedi'i deipio.

| Enw a chyfeiriad y cyflogwr | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Gorffen | Eich swydd a'ch prif ddyletswyddau |
|---|---|---|---|

(nodwch y wlad os yw y tu allan i'r DU) | (mis/blwyddyn) | (mis/blwyddyn) | (nodwch ai swydd amser llawn neu ran-amser oedd hon)

## 4. DATGANIAD PERSONOL ATODOL

Defnyddiwch y lle hwn i ychwanegu gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais. Y cyfeiriad a nodwyd ar dudalen 1 o dan bwynt 3 uchod ddylai hwn fod.

## 5. CYFEIRIADAU

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | Enw: | |
| Cyfeiriad: | | Cyfeiriad: | |
| Swydd: | | Swydd: | |
| Cyfeiriad e-bost: | | Cyfeiriad e-bost: | |

## 6. ANABLEDDAU/ANGHENION ARBENNIG

Ticiwch y blwch priodol os oes gennych anabledd/angen arbennig a allai effeithio ar eich astudiaethau neu efallai bydd angen cyfleusterau neu driniaeth arbennig arnoch. Gall yr wybodaeth gael ei defnyddio i wneud trefniadau priodol i gefnogi eich astudiaethau.

0 Dim anabledd ☐ 6 Mae gennych chi anawsterau iechyd meddwl ☐

1 Mae gennych chi anhawster dysgu penodol (e.e. dyslecsia) ☐ 7 Mae gennych chi anabledd na ellir ei weld (e.e. diabetes, epilepsi neu gyflwr iechyd) ☐

2 Rydych yn ddall neu â golwg rhannol ☐ 8 Mae gennych ddau neu fwy o'r uchod ☐

3 Rydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw ☐ 9 Mae gennych chi anabledd, angen arbennig neu angen meddygol ☐

4 Rydych yn defnyddio cadair olwyn neu mae gennych anawsterau symudedd ☐ 10 Cyflwr heb ei restru uchod ☐

5 Mae gennych Anhwylder y Sbectrwm Awtistaidd neu Syndrom Asperger ☐

## 7. DEDDF DIOGELU DATA

Mae'r Brifysgol yn gofyn am yr wybodaeth ar y ffurflen hon at ddibenion addysgol a bydd eich data personol yn cael ei brosesu'n unol â deddfwriaeth cofrestru a diogelu data gyfredol y Brifysgol.

## 8. DATGANIAD

Collfarnau Troseddol: A oes gennych gollfarn droseddol? (Gweler y nodiadau cyfarwyddyd) OES ☐ NAC OES ☐

**Cadarnhaf fod yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gais hon yn wir, yn gyflawn ac yn gywir ac nid oes unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani, na gwybodaeth berthnasol arall, wedi'i hepgor. Rwy'n deall bod y Brifysgol yn cadw'r hawl i wirio dilysrwydd fy nghais a'i bod yn cadw'r hawl i ganslo fy nghais os darparwyd gwybodaeth anwir.**

Llofnod yr Ymgeisydd: Dyddiad:

**Dychweler at VBHCAcademy@abertawe.ac.uk**